Chwarae Cymru Play Wales

# Pam dewis Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar waith ($P^3$)?

**Mae cymwysterau a deunyddiau cwrs Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith ($P^3$) yn rhyngwladol unigryw ac wedi eu datblygu, eu hadolygu a'u diweddaru i gyflawni anghenion y sector gwaith chwarae.**

Mae Chwarae Cymru wedi gweithio gydag Agored Cymru ac Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales i ddatblygu cymwysterau newydd sy'n darparu llwybr cynnydd cydlynol ar gyfer dysgwyr gwaith chwarae.

Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) – Mae'r cymhwyster hwn yn anelu i ddarparu cyflwyniad cyflawn i waith chwarae ar gyfer y bobl hynny sy'n gweithio mewn cynlluniau chwarae gwyliau fel gweithwyr chwarae. Mae hefyd yn darparu'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer symud ymlaen i'r cymhwyster nesaf.

Tystysgrif Lefel 2 Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith (Lefel 2 $P^3$) – Bydd y cymhwyster hwn yn paratoi gweithwyr chwarae i weithio mewn lleoliadau gwaith chwarae blwyddyn gron ac mae'n ehangu ar y wybodaeth a enillwyd yn L2APP.

Diploma Lefel 3 Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith (Lefel 3 $P^3$) – Mae'r cymhwyster hwn wedi ei anelu at uwch-weithwyr chwarae, personau â chyfrifoldeb a phersonau cofrestredig sy'n gweithio mewn lleoliadau gwaith chwarae blwyddyn gron ac mae'n ehangu ar y wybodaeth a enillwyd yn L2APP a Lefel 2 $P^3$.

Mae'r pwyntiau canlynol yn tynnu sylw at nodweddion allweddol y cymwysterau. Maent yn crynhoi'r hyn sydd yn gwneud y cymwysterau'n arbennig.

## Athroniaeth a strwythur

- Mae $P^3$ wedi ei strwythuro o amgylch yr Egwyddorion Gwaith Chwarae (y fframwaith moesegol a phroffesiynol ar gyfer chwarae a gymeradwywyd gan y sector) sy'n sail i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae.
- Mae $P^3$ yn hyfforddiant gwirioneddol chwarae-ganolog ble mae anghenion y plentyn yn chwarae yn dod gyntaf.
- Mae gwaith chwarae cynhwysol a chyflawni anghenion chwarae pob plentyn wedi eu gwreiddio'n ddwfn trwy'r cyrsiau $P^3$.
- Mae deunyddiau dysgu $P^3$ wedi eu hysgrifennu, eu dylunio a'u golygu gan rai o arbenigwyr gwaith chwarae amlycaf y DU.
- Mae $P^3$ ar fframwaith Cymwysterau yng Nghymru ac, o ganlyniad, mae wedi ei gymeradwyo gan reoleiddiwr cymwysterau Cymru, Cymwysterau Cymru.
- Mae $P^3$ ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac mae Chwarae Cymru wedi datblygu geirfa newydd yn y Gymraeg i gynorthwyo gyda deall theori gwaith chwarae'n ddwyieithog.

## Dysgu

- Mae $P^3$ yn gyfuniad o theori ac ymarfer. Bydd dysgwyr yn gallu egluro'r hyn y maent yn ei wneud a pham eu bod yn ei wneud, a disgwylir iddynt roi'r hyn y maent wedi ei ddysgu ar waith.

- Mae P³ yn unigryw yn y modd y bydd yn asesu dysgwyr, sy'n golygu ei fod yn wahanol iawn i gymwysterau gwaith chwarae eraill. Caiff dulliau asesu eu teilwra i natur rôl y swydd, er mwyn sicrhau cydlyniad rhwng dysg ac arfer.
- Caiff cymwyseddau craidd P³ (fel sut y bydd dysgwyr yn hwyluso chwarae) eu hasesu trwy asesu ymarfer, tra defnyddir myfyrio a chwestiynau ysgrifenedig i asesu gwybodaeth sylfaenol.
- Cefnogir P³ gan ystod o ddeunyddiau o safon uchel yn cynnwys llawlyfrau cynhwysfawr i ddysgwyr a ffilm a gomisiynwyd yn arbennig, *Gwthio Eddie yn y Danadl Poethion gyda Connor*, sy'n dangos plant yn chwarae mewn amrywiol amgylcheddau ar draws Cymru.

**Am fwy o wybodaeth am P³ ymwelwch â: https://chwarae.cymru/gwaith-chwaraewysterau-a-hyfforddiant/**

**Os hoffech chi wybod mwy, mae croeso i chi gysylltu â ni ar: gweithlu@chwaraecymru.org.uk**

## Trosglwyddo

- Trosglwyddir P³ gan rai o hyfforddwyr gwaith chwarae mwyaf bywiog ac ysbrydoledig y DU. Mae pob un o hyfforddwyr P³ yn weithwyr chwarae galwedigaethol gymwys ac yn hyfforddwyr gwaith chwarae cymwysedig sydd wedi cwblhau cymhwyster achrededig unigryw – Dyfarniad mewn Trosglwyddo Hyfforddiant Gwaith Chwarae Dynamig (ADDaPT).
- Mae profiad dysgu P³ yn un rhyngweithiol, dynamig sy'n sicrhau y bydd dysgwyr yn ei gael yn brofiad diddorol a llawn symbyliad – waeth beth fo'u harddull dysgu.
- Gellir trosglwyddo P³ trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg (yn cynnwys y llawlyfrau).
- Gellir trosglwyddo P³ mewn modd hyblyg i weddu i anghenion lleol, a gellir trafod amserau yn ogystal â lleoliadau.




Chwarae Cymru
Play Wales

www.chwarae.cymru

 © Chwarae Cymru 